**Ken Skates AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Cynulliad

12 Gorffennaf 2016

Annwyl Aelodau'r Cynulliad

Ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch y newyddion a ddaeth i law yn ddiweddar am Dow Chemical Company. Gwnaeth y cwmni gyhoeddi y gallai hyd at 115 o swyddi fod yn y fantol ar y safle yn y Bari a hynny o ganlyniad uniongyrchol i'r cwmni'n prynu cwmni Dow Corning.

Disgwylir y bydd ymgyngoriadau'n cael eu cynnal gyda'r gweithlu a bydd y gwaith hwnnw'n dechrau yn ystod trydydd chwarter 2016. Mae hwn yn rhan o raglen ailstrwythuro ar gyfer y grŵp cyfan er mwyn gwella gwerth cyfranddaliadau. Mae'n effeithio ar y gweithlu ym mhob cwr o'r byd oherwydd bydd y gwaith sydd wedi'i gynllunio i leihau'r gweithlu yn arwain at 2,500 o bobl yn colli eu swyddi.

Ar hyn o bryd, mae 629 o bobl yn cael eu cyflogi ar y safle yn y Bari. Maent yn gweithgynhyrchu hylifau silicôn, rwber a pholymerau arbenigol. Mae Dow yn gwmni sy'n bwysig i'r rhanbarth ac fel y cyfryw caiff ei reoli gan dîm y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch.

Mae fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau gydag Uwch-reolwyr y safle yn y Bari. Y gobaith yw dod o hyd i ffyrdd posibl o gynorthwyo'r grŵp a diogelu swyddi ar y safle hwnnw yn y Bari.

Wrth i'r sefyllfa ddatblygu ymhellach, byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi fel Aelodau.

Yn gywir,

Ken

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*